Adroddiad ar

# Ysgol Gyfun Bro Edern

Llanedeyrn Road
Pen-y-lan
Caerdydd
CF23 9DT
Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gyfun Bro Edern

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Gyfun Bro Edern |
| Awdurdod lleol | Cyngor Caerdydd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | Cymraeg |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 936 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 809 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 127 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Uwchradd yw 21.1%) | 20.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Uwchradd yw 11.2%) | 2.7% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 24.7% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | 01/09/2012 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw’n berthnasol) | 22/11/2017 |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 17/03/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern yn meithrin ymdeimlad cryf o berthyn ac yn cynnig amgylchedd teuluol clòs i'w disgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer lles disgyblion yn gyffredinol yn gadarn ac mae llu o weithgareddau allgyrsiol difyr ar gael iddynt. Yn y mwyafrif o achosion, mae disgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu dealltwriaeth bynciol gyda chynnydd cryf mewn ychydig o wersi. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, mae diffygion yn yr addysgu yn rhwystro cynnydd y disgyblion. Yn gyffredinol, nid yw'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu medrau llafaredd, darllen ac ysgrifennu.

Mewn lleiafrif o achosion, mae athrawon yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg gan y disgyblion yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif yr athrawon yn hyrwyddo defnydd y disgyblion o'r Gymraeg yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, nid yw llawer o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu gallu na'u parodrwydd i gyfathrebu yn Gymraeg.

Mae athrawon yn cynllunio gwersi'n briodol yn y mwyafrif o achosion, ond mewn lleiafrif ceir gweithgareddau diflas a her isel. Mae llawer o athrawon yn holi cwestiynau i wirio adalw'r disgyblion yn briodol ond yn y mwyafrif o achosion, nid ydynt yn defnyddio cwestiynau sy'n ysgogi'r disgyblion i ymhelaethu ar eu syniadau'n ddigonol. Ceir adborth buddiol yn y mwyafrif o achosion ond mae hwn yn rhy gyffredinol mewn lleiafrif ohonynt. Mae'r cwricwlwm yn cynnig ystod eang o brofiadau addas ond nid yw cynllunio'r ysgol i sicrhau datblygiad medrau'r disgyblion yn ddigon cydlynus.

Yn y mwyafrif o wersi, mae agweddau disgyblion yn lled gadarnhaol, gyda llawer yn canolbwyntio'n briodol. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn hwyr i'w gwersi neu'n crwydro'r coridorau. Mewn lleiafrif o wersi, arddangosa disgyblion ddiffyg dyfalbarhad a diddordeb yn eu dysgu ac mewn ychydig o wersi, ceir ymddygiad gwael sy'n tarfu ar ddysgu. Mae presenoldeb wedi gwella'n ddiweddar ond yn parhau'n is nag oedd cyn y pandemig. Gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol, mae prosesau diogelu'r ysgol wedi cryfhau yn ddiweddar.

Yn gyffredinol, mae arweinyddiaeth yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion. Mae arweinwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hunanwerthuso priodol ond nid ydynt yn arfarnu'r addysgu yn sgil ei effaith ar ddysgu yn ddigon agos. Maent yn or hael o ran eu harfarniad o'r agweddau hyn. Dros amser, nid yw arweinyddiaeth yr ysgol wedi cael digon o effaith ar elfennau pwysig fel ansawdd yr addysgu na datblygiad medrau llythrennedd y disgyblion. Nid yw arweinwyr yn arddangos y gallu i wella'r agweddau hyn.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud pump argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:

A1. Gwella arweinyddiaeth strategol ac atebolrwydd ar bob lefel, gan gynnwys ansawdd yr hunanarfarnu a chynllunio gwelliant

A2. Sicrhau bod y llywodraethwyr yn cynnig her briodol i arweinwyr

A3. Cryfhau ansawdd yr addysgu

A4. Cryfhau medrau llythrennedd y disgyblion ynghyd â'u parodrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg

A5. Gwella presenoldeb a phrydlondeb i wersi

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o'r farn bod angen mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob pedwar i chwe mis, fel arfer.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a chynnydd

Yn y mwyafrif o wersi, mae'r disgyblion yn adalw dysgu blaenorol yn briodol ac yn gwneud cynnydd addas yn eu dealltwriaeth bynciol a'u medrau. Mewn ychydig o achosion, gwna disgyblion gynnydd cryf o ganlyniad i addysgu medrus. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd, yn bennaf o ganlyniad i ddiffygion yn yr addysgu.

Mae llawer o athrawon yn meithrin perthynas weithio agos a chynhaliol â disgyblion. Mae'r rhan fwyaf yn arddangos gwybodaeth bwnc gadarn ac maent yn fodelau iaith addas. Yn y mwyafrif o achosion, mae athrawon yn cynnig esboniadau priodol ac yn modelu atebion yn addas i gynorthwyo'r disgyblion i ddeall beth sydd ei angen arnynt i lwyddo. Mewn lleiafrif o wersi, mae'r athrawon yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg gan y disgyblion yn effeithiol. Fodd bynnag, yn rhy aml, nid yw'r athrawon yn ddigon llwyddiannus wrth fwydo iaith i'r disgyblion nac ychwaith yn sicrhau eu bod yn defnyddio'r iaith yn eu trafodaethau. O ganlyniad, nid yw llawer o'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu gallu i gyfathrebu yn  Gymraeg.

Mae'r mwyafrif o wersi wedi'u cynllunio'n briodol â gweithgareddau sy'n cyfrannu at gynnydd addas yng ngwybodaeth bynciol y disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae gan athrawon ddisgwyliadau priodol o'r hyn y gall y disgyblion ei gyflawni. Fodd bynnag, mae diffygion yng nghynllunio'r lleiafrif o athrawon sy'n arwain at ddisgyblion yn oddefol ac yn cyflawni gweithgareddau lefel isel fel copïo o'r bwrdd.

Mewn llawer o wersi, mae'r athrawon yn holi cwestiynau caeedig priodol er mwyn gwirio adalw'r disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae'r athrawon yn symud o amgylch yr ystafell ddosbarth a chynorthwyo disgyblion yn briodol. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif yr athrawon yn defnyddio digon o gwestiynau agored er mwyn procio dealltwriaeth disgyblion au'u cael  i ymhelaethu ar eu hatebion.

Mewn ychydig o wersi, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau a'u dealltwriaeth bynciol. Yn y gwersi hyn, mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel iawn o'r hyn y gall y disgyblion ei wneud ynghyd â'u defnydd o'r iaith Gymraeg. Ceir cynllunio dychmygus sy'n ennyn diddordeb y disgyblion, lefel uchel o her ac adnoddau ysgogol i gefnogi dysgu annibynnol. Mae'r athrawon yn holi cwestiynau treiddgar i'r disgyblion sy'n eu hysgogi i ymhelaethu ar eu syniadau.

Mae mwyafrif yr athrawon yn cynnig adborth ysgrifenedig buddiol ar waith disgyblion. Maent yn cyflwyno meini prawf llwyddiant defnyddiol i sicrhau bod y disgyblion yn deall gofynion tasgau penodol ac yn cynnig cyfleoedd dilynol iddynt  wella'u gwaith. Mae mwyafrif y disgyblion yn ymateb yn fuddiol i'r rhain. Mewn lleiafrif o achosion, mae'r adborth yn rhy gyffredinol neu'n or-ganmoliaethus.

Yn y mwyafrif o wersi, mae disgyblion yn arddangos agweddau lled gadarnhaol at eu dysgu. Mae llawer yn gwrando'n barchus ar eu hathrawon, yn dilyn cyfarwyddiadau ac yn gweithio'n dda gydag eraill mewn grwpiau neu barau. Mewn lleiafrif o achosion, yn bennaf o ganlyniad i ddiffygion yn yr addysgu, mae diffyg dyfalbarhad a diddordeb yn amlwg. Mewn ychydig o wersi, ceir ymddygiad gwael sy'n tarfu ar y dysgu. Yn ogystal â hyn, mae ychydig o ddisgyblion yn cyrraedd eu gwersi'n hwyr neu'n crwydro'r coridorau. Mewn ychydig o wersi, mae disgwyliadau uchel athrawon ac anogaeth gadarnhaol yn golygu bod bron pob disgybl yn defnyddio'r Gymraeg wrth drafod. Serch hynny, mewn llawer o wersi, nid yw'r disgyblion yn defnyddio'r iaith wrth sgwrsio a thrafod.

Yn y chweched dosbarth, mae agweddau'r disgyblion at ddysgu yn gadarnhaol iawn. Maent yn aeddfed ac yn trafod syniadau cymhleth â'i gilydd yn fuddiol tra hefyd yn gweithio'n annibynnol yn llwyddiannus. Mewn llawer o achosion, gwnânt gynnydd da. Mewn ychydig o wersi, fodd bynnag, mae'r gweithgareddau'n rhy syml ac nid ydynt yn cynnig digon o her i'r disgyblion.

## Y cwricwlwm

Mae'r ysgol wedi gweithio'n briodol gyda'u hysgolion partner cynradd i lunio gweledigaeth ar gyfer eu cwricwlwm. Mae hon wedi ei seilio ar falchder o fod yn ddinesydd yng Nghaerdydd. Yn yr adrannau ble mae'r cynllunio ar ei orau, ceir profiadau dysgu difyr sy'n rhoi'r cyfle i'r disgyblion ddatblygu'n  ddinasyddion gwybodus. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio cwricwlaidd bob amser yn ddigon cydlynus i sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd i feithrin eu hannibyniaeth a chymhwyso'u dealltwriaeth.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gyrsiau ym Mlwyddyn 10 ac 11, gan gynnwys amrywiaeth o gyfleoedd i astudio cyrsiau galwedigaethol, megis adeiladwaith, peirianneg a thrin gwallt. Mae gan yr ysgol hefyd ddarpariaeth amgen bwrpasol ar gyfer y disgyblion hynny sydd ei hangen, gan gynnwys gofal plant a choginio. Yn y chweched dosbarth, mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag ysgolion Cymraeg y ddinas er mwyn sicrhau cynnig cynhwysfawr o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol.

Gwna'r arweinwyr ddefnydd da o holiaduron disgyblion er mwyn cynllunio rhaglen addas o weithgareddau er mwyn datblygu agweddau iach at iechyd a lles. Gwelir cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion fyfyrio ar eu datblygiad personol, emosiynol a chymdeithasol, er enghraifft trwy'r cynllun 'Llun Llafar'. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 yn ddigon cydlynus.

Mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddefnyddio eu medrau corfforol o fewn y gwersi addysg gorfforol a rhai eraill fel trin gwallt a garddio. Mae darpariaeth allgyrsiol chwaraeon yr ysgol yn gyfoethog ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr, gyda nifer dda o ddisgyblion yn manteisio ar hynny. Mae timau chwaraeon yr ysgol wedi profi llwyddiant cenedlaethol mewn sawl maes.

Mae'r ysgol yn darparu llu o gyfleoedd allgyrsiol gwerthfawr. Ceir cyfleoedd difyr i ddatblygu medrau creadigol ac arweinyddiaeth, er enghraifft trwy gymryd rhan mewn cynhyrchiad o 'Swyn y Gân' a chyfleoedd ysbrydoledig i ymrwymo i gystadlaethau rhyngwladol. Mae hefyd gyfleoedd defnyddiol ar gyfer teithiau tramor a lleol, er enghraifft gyda thaith i Flwyddyn 7 a Blwyddyn 6 y dalgylch i Langrannog, fel rhan o'r cynllun pontio.

Mae'r ysgol yn cynnig profiadau gwerthfawr i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o faterion amrywiaeth a rhagfarn. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion yn ymdrin â'i gilydd ac oedolion gyda thegwch a pharch. Mae cyfleoedd addas, megis rhaglen waith Blwyddyn 9 yn ymwneud â 'Tafwyl', o fewn y cwricwlwm i hyrwyddo Cymreictod.

### Llythrennedd

Yn gyffredinol, nid yw'r disgyblion yn gwneud cynnydd digon cryf yn eu medrau llythrennedd.

### Llafaredd

Mae gan ychydig o ddisgyblion afael da iawn ar y Gymraeg ac maent yn mynegi eu hunain yn soffistigedig. Maent yn cyfleu eu syniadau'n glir ac yn darparu atebion estynedig â chystrawen addas. Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n addas a'r mwyafrif yn ateb cwestiynau syml yn briodol. Mae gan y mwyafrif o'r disgyblion afael addas ar eirfa pwnc-benodol. Nid yw ychydig o ddisgyblion yn gwrando'n ddigon gofalus yn ystod y gwersi ac mae ychydig o ddisgyblion yn amharod i gyfrannu ar lafar. Nid yw geirfa Gymraeg llawer o'r disgyblion yn ddigon eang ac maent yn cael trafferth cyfathrebu'u syniadau yn Gymraeg ac yn ymateb yn Saesneg i athrawon a chynorthwywyr.

Yn ddiweddar, mae’r ysgol wedi blaenoriaethu datblygu medrau llafaredd y disgyblion. Maent wedi cyflwyno ychydig o strategaethau priodol ar gyfer datblygu llafaredd disgyblion, megis y weithgaredd ‘Llun Llafar’ wythnosol yn y cyfnodau boreol. Fodd bynnag, nid yw’r strategaethau hyn wedi cael digon o effaith ar lafaredd disgyblion.

## Darllen

Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi cyflwyno strategaeth ysgol gyfan briodol i gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau darllen. Buddsoddir amser wythnosol i ddisgyblion iau ddarllen yn unigol neu gyd-ddarllen nofel y dosbarth yn y sesiynau boreol er mwyn creu diwylliant o ddarllen er mwynhad.

O gael y cyfle, mae llawer o'r disgyblion yn echdynnu ffeithiau a gwybodaeth yn addas o destunau sylfaenol ar draws y pynciau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddo i adnabod nodweddion arddull yn gywir. Mae mwyafrif y disgyblion yn darllen ar goedd yn briodol, ond mae nifer sylweddol o ddisgyblion yn baglu dros eirfa anghyfarwydd. Pan gânt y cyfle, ymateba lawer o ddisgyblion yn briodol i dasgau crynhoi gwybodaeth, er enghraifft crynhoi ffeithiau am fywyd E. Jenner neu'r bardd Dylan Thomas. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd ar draws y cwricwlwm i ddisgyblion ddatblygu eu huwch fedrau darllen.

Mae ychydig o ddisgyblion yn ysgrifennu gyda lefel uchel o gywirdeb ac yn defnyddio geirfa soffistigedig a chystrawen gywir iawn. Er enghraifft, yn eu gwersi Saesneg, maent yn ysgrifennu llythyrau anffurfiol difyr iawn yn sôn am eu dyheadau ar gyfer y dyfodol. Mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n  lled rhugl a chywir. Fodd bynnag, mae lleiafrif o'r disgyblion yn ysgrifennu gyda chystrawen letchwith. Maent yn gwneud gwallau gramadegol a sillafu cyson yn eu gwaith ac maent yn camdreiglo. Mewn pynciau ar draws y cwricwlwm, nid oes digon o gyfleoedd i'r ddisgyblion ddatblygu medrau ysgrifennu estynedig.

Mae'r trefniadau i adnabod a chefnogi disgyblion gyda medrau llythrennedd gwan yn briodol. Mewn llawer o achosion, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd addas o'u mannau cychwyn yn dilyn ymyraethau perthnasol.

Mewn pynciau perthnasol, mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd. Mae arweinwyr wedi cydweithio'n gynhyrchiol er mwyn sicrhau bod llawer o'r cyfleoedd yn cyfoethogi'r dysgu yn y pwnc ynghyd â datblygu medrau rhifedd disgyblion. Maent wedi adnabod diffyg rhuglder rhifiadol disgyblion fel rhwystr i'w datblygiad ac wedi rhoi cynllun buddiol ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r elfen hon.

Mae gan ychydig o ddisgyblion fedrau rhifedd cryf. Er enghraifft, maent yn datrys problemau mwy cymhleth megis creu hafaliadau cwadratig o sefyllfaoedd, ac yna eu datrys yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae gan ychydig o ddisgyblion fedrau rhif gwan. Yn ogystal, nid yw'r ddarpariaeth bob amser yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau datrys problem a'u gallu i resymu yn fathemategol.

Mae mwyafrif y disgyblion yn arddangos gafael gadarn ar gysyniadau rhif. Er enghraifft, mae ganddynt ddealltwriaeth addas o'r cysyniad o gymhareb gan ei gymhwyso'n llwyddiannus i gyfrifo pellterau ar fap ac i rannu arian mewn cymhareb benodol. Mae disgyblion mwy abl yn cymhwyso eu dealltwriaeth o ffurf safonol yn hyderus.

Mae llawer o ddisgyblion yn dadansoddi data yn addas. Maent yn cyfrifo mesurau o gyfartaledd ar gyfer setiau o ddata, ac yn ystyried effaith ychwanegu data ar y gwahanol fesurau. Maent yn llunio amrywiaeth o graffiau yn gywir a phan geir cyfleoedd, gallant ddadansoddi eu graffiau i ddod i gasgliadau synhwyrol.

Ar draws y cwricwlwm, mae cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau cynhyrchu digidol. O ganlyniad, mae disgyblion, yn gyffredinol, yn gwneud cynnydd addas wrth ddatblygu'r medrau hyn. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio amrywiaeth o feddalwedd i gyflwyno gwybodaeth. Fodd bynnag, mae gwaith yr ysgol i ddarparu cyfleoedd ar draws y cwricwlwm i ddisgyblion  gymhwyso eu huwch fedrau digidol yn annatblygedig.

## Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Gyfun Bro Edern yn gymuned ddysgu groesawgar, gefnogol a chlòs sy'n gosod bri ar hybu lles a hapusrwydd bob disgybl. Mae staff yn adnabod disgyblion yn dda. Maent yn hynod ymroddgar ac yn gweithio'n ddiwyd er mwyn diwallu anghenion llawer o'r disgyblion. Mae disgyblion yn ymfalchïo yn y gefnogaeth a gânt ac yn gwerthfawrogi bod oedolion yn yr ysgol yn gofalu amdanynt. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel wrth weithio a chymdeithasu.

Mae'r ysgol yn cefnogi lles disgyblion yn llwyddiannus trwy ddarpariaeth ddeallus a gofalgar staff yn 'Y Porth', 'Yr Hafan' a'r 'Cwtsh'. Maent yn darparu rhaglenni pwrpasol sydd wedi eu teilwra'n fedrus i anghenion penodol disgyblion. Mae cydweithio amserol â theuluoedd ac asiantaethau eraill yn atgyfnerthu'r gefnogaeth, a thros amser, yn annog disgyblion i ailgysylltu â'u dysgu yn llwyddiannus.

Nodwedd lwyddiannus o waith yr ysgol yw'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer monitro ac olrhain lles a chynnydd disgyblion. O ganlyniad, maent yn dod i adnabod disgyblion sydd angen rhagor o gefnogaeth yn gynnar a darparu rhaglenni cefnogi pwrpasol sy'n diwallu eu hanghenion yn dda. Cydweithia'r ysgol yn briodol gydag asiantaethau allanol fel y gwasanaeth seicoleg addysg ac athrawon arbenigol, yn ôl yr angen. Mae'r ysgol wedi sefydlu partneriaeth weithio glòs â rhieni'r disgyblion hyn. Mae rhieni a disgyblion yn rhan bwysig o'r trefniadau ar gyfer adolygu cynnydd a chytuno ar y camau nesaf yn y dysgu. Dros amser, mae llawer o'r disgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd priodol o'u mannau cychwyn yn eu medrau rhifedd a llythrennedd, gyda'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn eu lles.

Mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau priodol ar gyfer hybu ymddygiad disgyblion. Mae hyn yn cynnwys 'Cadwyn a Chamau Ymddygiad Bro Edern' sy'n canolbwyntio ar ymddygiad cadarnhaol yn hytrach na dyrannu cosb. Mae llawer o'r staff yn gweithredu'r canllawiau yn glir a chyson ac, o ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda yn eu gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Er hyn, nid yw ychydig o athrawon yn dilyn y gweithdrefnau yn ddigon cadarn ac, yn yr achosion hyn, mae ymagweddau negyddol ychydig o ddisgyblion yn cyfyngu ar y cynnydd y maent yn ei wneud yn y dosbarth.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i hybu presenoldeb. O ganlyniad, mae presenoldeb disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r disgyblion sy'n absennol yn barhaus, wedi gwella'n gyson. Er hyn, mae cyfraddau presenoldeb yr ysgol yn parhau i fod yn sylweddol is na'r cyfnod cyn y pandemig.

Mae staff yn darparu ystod dda o gyfleoedd priodol i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau ac arwain ar agweddau pwysig o waith yr ysgol. Maent yn cymryd y rolau o ddifri, ac yn datblygu medrau gwerthfawr fel cydweithio, cynllunio a dyfalbarhau. Er enghraifft, mae'r disgyblion sydd ar y grŵp 'Tafodiaid Tanbaid' yn gweithio gydag ysgolion cynradd lleol ac yn hybu medrau llafar Cymraeg disgyblion Blwyddyn 2 trwy gyfrwng prosiect celf â chyd-destun hanes Santes Dwynwen. Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol ac ysbrydol yn briodol.

Mae cydweithio pwrpasol ag ysgolion cynradd partner yn sicrhau bod prosesau pontio cadarn yn cefnogi disgyblion wrth iddynt drosglwyddo i'r ysgol ac mae hyn yn eu helpu i ymgartrefu a setlo'n dda. Trwy ystod o gyfryngau, gan gynnwys nosweithiau agored a chefnogaeth anogwyr dysgu, mae'r ysgol yn darparu arweiniad a chymorth priodol i ddisgyblion ar gyfer dewis pynciau a'r camau nesaf yn eu datblygiad.

Yn ddiweddar, gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol, mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion wedi cael eu cryfhau yn sylweddol. Mae'r arweinwyr a'r staff bellach yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelu yn bwrpasol.

## Arwain a gwella

Mae'r pennaeth yn arweinydd meddylgar ac mae cynhwysiant a lles disgyblion a staff yn greiddiol i'w weledigaeth. Mae'r weledigaeth yn cynnwys darparu cyfleoedd eang i'r disgyblion  ddysgu a mwynhau trwy gyfrwng y Gymraeg. Coleddir y weledigaeth hon gan y llywodraethwyr, yr uwch dîm arwain a'r staff. Er bod arweinyddiaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar ofal ac arweiniad i ddisgyblion, nid yw wedi cael digon o effaith ar feysydd pwysig o waith yr ysgol fel ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth ar gyfer medrau, gan gynnwys medrau Cymraeg disgyblion.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr wedi cynllunio'n ofalus er mwyn osgoi diffyg yn y gyllideb. Maent wedi bod yn greadigol o ran datrysiadau i heriau staffio ac wedi diwygio trefniadau staffio yn briodol. Yn gyffredinol, mae cyfrifoldebau dros dro yr uwch dîm arwain wedi eu dyrannu'n synhwyrol. Mae'r rhan fwyaf o'r rheolwyr canol yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth maent yn ei chael gan aelod cyswllt o'r uwch dîm arwain a'u polisi drws agored. Yn gyffredinol, maent yn deall llawer o'r agweddau o'u rolau yn briodol.

Mae gan yr ysgol galendr defnyddiol o weithgareddau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Mae arweinwyr ar bob lefel yn cymryd rhan lawn mewn ystod eang o weithgareddau hunanwerthuso, gan gynnwys arsylwi gwersi a theithiau dysgu, craffu ar waith disgyblion, a chasglu barn disgyblion. Mae'r prif ganfyddiadau o'r gweithgareddau hyn yn cael eu rhannu â staff a darperir adborth addas iddynt ar sut y gallent wella eu harfer.

Mae gan arweinwyr bugeiliol ddealltwriaeth dda o'r cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae gan arweinwyr cwricwlaidd ar bob lefel ddealltwriaeth addas o'r prif gryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella yn eu meysydd cyfrifoldeb. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr ar bob lefel yn rhoi digon o ystyriaeth i effaith y ddarpariaeth ar gynnydd a medrau disgyblion. Mae arfarniadau mwyafrif yr arweinwyr hyn yn or-hael ac nid ydynt yn adnabod yn ddigon penodol yr union elfennau o'r addysgu a'r dysgu sydd angen eu gwella.

Mae arweinwyr yn gwneud ychydig ddefnydd o ddata wrth gynllunio gwelliant. Fodd bynnag, nid yw pob arweinydd yn gwneud defnydd llawn o'r holl ffynonellau data sydd ar gael iddynt. Nid ydynt yn blaenoriaethu'n  ddigon miniog y prif faterion a fyddai'n  cael yr effaith fwyaf ar gynnydd disgyblion. O ganlyniad, nid yw'r prosesau gwella yn ffocysu'n ddigonol ar wella elfennau pwysig o'r addysgu.

Mae cyswllt priodol rhwng blaenoriaethau'r ysgol a phrosesau rheoli perfformiad. Mae'r prosesau hyn yn cynnwys cyfleoedd buddiol i staff drafod eu dyheadau datblygu a'r dysgu proffesiynol angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r nodau. Mae gan yr ysgol raglen gynhwysfawr o weithgareddau dysgu proffesiynol sy'n cysylltu'n briodol â nodau datblygu yr ysgol a staff unigol. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd buddiol i rannu arferion da yn y sesiynau boreol 'Pain au Chocolat'. Fodd bynnag, gan nad yw arweinwyr yn adnabod union agweddau'r ddarpariaeth sydd angen eu gwella, nid yw'r rhaglen dysgu proffesiynol yn targedu'r agweddau hyn yn ddigon penodol. Yn ogystal, nid yw dysgu proffesiynol wedi cael digon o effaith ar fedrau arweinwyr i arfarnu'r dysgu a'r addysgu.

Mae cyfarfodydd rheolaeth llinell yn darparu cyfleoedd priodol i drafod materion sy'n cynnwys deilliannau disgyblion, canfyddiadau o weithgareddau hunanwerthuso a blaenoriaethau adrannol. Mae'r cyfarfodydd hyn, yn ogystal â'r rhai gyda'r mentor ar gyfer penaethiaid adran newydd, yn darparu cefnogaeth addas ar gyfer rheolwyr canol. Fodd bynnag, nid ydynt wedi eu harfogi nhw yn ddigonol i ddeall sut i arfarnu gwaith eu hadrannau.

Mae arweinwyr yn ymateb i rai blaenoriaethau cenedlaethol yn briodol, megis lliniaru effaith tlodi, datblygu Cwricwlwm i Gymru a chefnogi disgyblion ag ADY. Fodd bynnag, nid oes digon o bwyslais wedi bod ar gynllunio'n strategol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd na defnydd y Gymraeg gan ddisgyblion.

Mae'r ddarpariaeth lles yn y Porth yn gryfder penodol ac mae adnabyddiaeth gadarn arweinwyr o'r disgyblion a'u teuluoedd yn sicrhau bod yna gefnogaeth amserol o ran darparu gwisg ysgol a chymorth gyda chostau gweithgareddau allgyrsiol, yn ôl yr angen.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn gwario cyllid yr ysgol yn synhwyrol. Mae'r grant datblygu disgyblion yn cael ei wario'n addas, ond nid yw arweinwyr yn gwerthuso effaith y gwariant hwn ar gynnydd disgyblion yn ddigon manwl.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn o'r ysgol. Maent yn darparu lefel uchel o gefnogaeth a her briodol o ran rhai materion pwysig, gan gynnwys osgoi diffyg yn y gyllideb.

Mae'r llywodraethwyr yn deall eu cyfrifoldebau o ran hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn yr ysgol. Fodd bynnag, dros amser, nid yw llywodraethwyr wedi herio'n ddigonol rai materion pwysig, megis ansawdd yr addysgu a defnydd y Gymraeg gan y disgyblion.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:


Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru


Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  22/05/2025